*Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Y Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol: Adroddiad y Pwyllgor (2) 05-07*

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n croesawu'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 6 argymhelliad:

**1 Argymhelliad**

**Yr ydym yn argymell y dylai canllawiau Llywodraeth y Cynulliad sydd i'w cyhoeddi'n fuan nodi'n glir:**

**a. sut y dylai awdurdodau lleol ddehongli deddfwriaeth ar ddigartrefedd a diffiniadau o ddulliau gweithio, gan ddarparu esiamplau ymarferol i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau; a**

**b. y gwahaniaeth rhwng "gwarchod y porth" ac atal.**

***Derbyniwyd.***

a. a b.

Darperir canllawiau cynhwysfawr ar ddehongli deddfwriaeth ar ddigartrefedd yn ogystal ag arferion atal a 'gwarchod y porth' yn y Cod Canllawiau diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyraniadau a Digartrefedd a gyhoeddir ar gyfer ymgynghoriad erbyn Rhagfyr 2007. Yn ogystal â diwygio'r Cod Canllawiau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu nifer o brosiectau i gynorthwyo awdurdodau lleol ac asiantaethau cynghori i weithredu a dehongli deddfwriaeth ar ddigartrefedd yn gywir. Bydd y prosiectau hyn yn chwarae rôl bwysig er mwyn sicrhau bod pobl sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o gael eu hunain yn ddigartref, yn cael y gwasanaethau o ansawdd dda y mae ganddynt yr hawl iddynt. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cydweithio â CLILC a Shelter Cymru ar ddatblygu taflen sy'n rhoi cyngor i ymholwyr ac yn esbonio eu hawliau a sut y gallant gael cymorth pellach i ddatrys eu problemau tai.

**2 *Argymhelliad***

**Yr ydym yn argymell fod tîm digartrefedd Llywodraeth y Cynulliad yn codi ymwybyddiaeth am y Strategaeth ymhlith timau ac adrannau eraill, er enghraifft trwy seminarau a thrwy fod yn aelodau o weithgorau.**

***Derbyniwyd.***

Mae tîm y polisi digartrefedd eisoes yn gwneud llawer o waith gyda gweithgorau sy'n cynnwys y Grŵp Llywio Llety i Droseddwyr Cymru Gyfan a'r Pwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru. Hefyd, mae'r tîm yn cydweithio â grwpiau ar faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r sector rhentu preifat, lle bydd cyd-gynllunio a gweithio ar draws sectorau yn cael eu datblygu'n genedlaethol.

Mae swyddogion wrthi'n cynllunio cyflwyniadau ar draws adrannau ar y Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol yng nghyd-destun agenda 'Creu'r Cysylltiadau'. Gwnaed y cyflwyniad cyntaf i swyddogion iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Mehefin 2007. Mae rhagor o gyfarfodydd ar y cyd ar y

gweill gyda swyddogion mewn meysydd polisi eraill megis addysg, polisi ieuenctid a llywodraeth leol i godi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth a datblygu gweithredu ar y cyd i gyflawni ei hamcanion.

3 ***Argymhelliad***

**Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu neu wneud:**

- **a. archwiliadau o bob llety dros dro, gyda hapwiriadau dilynol sy'n seiliedig ar risg; a**
- **b. asesiad llawn i weld a yw dyraniad tai awdurdodau lleol a'u polisïau a'u harferion o ran digartrefedd yn unol â gofynion statudol.**

***a. Derbyniwyd.***

***b. Derbyniwyd.***

a Cyfrifoldeb statudol yr awdurdodau lleol yw sicrhau ansawdd llety dros dro drwy Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y ddeddfwriaeth hon, a gaiff eu hymgorffori yn y Cod Canllawiau ar Ddyraniadau a Digartrefedd. Nodir yn glir yn ein canllawiau statudol diwygiedig y byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol gynnal hapwiriadau sy'n seiliedig ar risg. Byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, CLlLC a'r sector gwirfoddol i weld a ddylid atgyfnerthu'r canllawiau hyn, gan gynnwys yr angen i gynnal archwiliadau a hapwiriadau sy'n seiliedig ar risg. Bydd y trafodaethau hyn yn dechrau ym mis Gorffennaf 2007.

b Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Shelter Cymru, wedi cwblhau asesiad o holl bolisïau dyrannu awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Cyhoeddwyd adroddiad dan yr enw ' Adolygiad o gynlluniau Dyrannu Awdurdodau Lleol' ym mis Mawrth 2007 i awdurdodau lleol ar y prif ganfyddiadau, gydag argymhellion iddynt ar sut y dylent adolygu a diwygio eu polisïau. Mae tîm y polisi digartrefedd hefyd wedi comisiynu nifer o arweinlyfrau a chyhoeddiadau arferion da i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol o ran digartrefedd yn unol â gofynion cyfreithiol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig ar bolisïau dyrannu a digartrefedd yn ystod y deuddeg mis nesaf, a bydd yn gweithredu yn dilyn hynny i sicrhau bod awdurdodau lleol wedi ymateb i'r argymhellion a'r canllawiau arferion da i'w cyhoeddi eleni. Byddwn hefyd yn cydweithio â Shelter Cymru a CLlLC i nodi a mynd i'r afael ag enghreifftiau o arferion gwael.

Rydym wedi cefnogi datblygiad strategaethau digartrefedd lleol drwy gyllid uniongyrchol a chanllawiau statudol ers cyflwyno'r ddyletswydd yn 2003. Ers hynny rydym wedi darparu dros £1m yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio i gefnogi atal digartrefedd a mentrau llety dros dro yr awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn ariannu swyddi rhwydwaith digartrefedd yr awdurdodau lleol, sy'n cefnogi awdurdodau lleol i fodloni'r agenda genedlaethol. Rydym wedi ymweld â phob awdurdod lleol yn ystod y 18 mis diwethaf, ac mae'n amlwg fod pob awdurdod yn gwneud cynnydd o ran bodloni amcanion cenedlaethol, er bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth wleidyddol i'r broblem hon mewn nifer o achosion.

O 2007 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni

eu dyletswyddau i lunio strategaethau digartrefedd o fewn eu strategaethau tai lleol. Byddwn yn ystyried y strategaethau tai terfynol yn y man.
Mae darparu gwasanaethau arbenigol yn fater cynllunio lleol. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi anghenion a chynllunio gwasanaethau gyda phartneriaid drwy eu strategaeth dai leol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd yn rhoi cyfarwyddyd clir ar yr angen am gynllunio a chyflwyno gwasanaethau ar y cyd. Rydym yn cefnogi ac yn ariannu ystod o wasanaethau arbenigol drwy ein rhaglenni grant Digartrefedd a Chefnogi Pobl. Er enghraifft, rydym yn ariannu gwasanaethau sy'n hybu iechyd, cyngor arbenigol ar dai a gwella sgiliau byw'n annibynnol i bobl ddigartref. Ar fater cyn filwyr y gwasanaethau arfog, trefnwyd cynhadledd genedlaethol yr hydref diwethaf gyda chyn filwyr a sefydliadau digartrefedd, ac ar hyn o bryd rydym yn trafod gyda'r sectorau tai a chyn filwyr ddatblygiad cyfeiriadur gwasanaethau a seminarau rhanbarthol i hyrwyddo atal digartrefedd ymysg cyn filwyr.

**4** ***Argymhelliad***

**Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad:**

- **a. defnyddio'r asesiad o anghenion tai i ddatblygu gwaelodlin genedlaethol o ran anghenion a chyflenwad gyda golwg ar dai; a**
- **b. asesu gallu'r sector preifat i barhau i letya pobl gydag anghenion tai cyffredinol tra'n cynyddu mynediad ar gyfer pobl ddigartref.**

***Derbyniwyd.***

a Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd mewn asesiadau o'r farchnad dai leol i lywio'r gwaith o gynllunio rhaglenni'r Grant Tai Cymdeithasol, cefnogi cyflwyno strategaethau tai lleol a helpu i ddefnyddio'r sector rhentu preifat yn fwy effeithiol i ddiwallu'r anghenion tai. Mae cynllunio'r angen am dai yn bwysig ar gyfer cyd-destun ehangach polisi tai ac ni ellir cyfeirio hyn yn gyfan gwbl gan bolisi digartrefedd. Fodd bynnag, comisiynwyd a chasglwyd ystod eang o dystiolaeth ymchwil i ddeall yn well y materion sy'n effeithio ar yr angen am dai a'r cyflenwad ohonynt, er mwyn llywio'n well y gwaith o gyflwyno polisïau effeithiol sydd wedi'u targedu'n well. Mae'r dystiolaeth ymchwil hon yn cynnwys yr astudiaeth a gynhaliwyd gan Michael Jones o Brifysgol Caergrawnt ar y berthynas rhwng y farchnad dai, digartrefedd a gosod tai cymdeithasol. Asesiadau o'r farchnad dai gan awdurdodau lleol yw'r prif offeryn ar gyfer casglu gwybodaeth am y galw lleol am dai.

b. Dylid cynnal y gwaith o asesu gallu'r sector breifat i ddiwallu anghenion tai ar lefel leol a dylid rhoi sylw i hyn drwy strategaethau tai lleol ac asesiadau o'r farchnad dai. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn crynhoi darlun cenedlaethol o'r asesiadau hyn a gaiff eu defnyddio i lywio datblygiad y polisi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar gynnal asesiadau lleol o'r farchnad dai, gan gynnwys cyflwr a chapasiti'r sector rhentu preifat. Mae Shelter Cymru eisoes wedi llunio adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n edrych ar y ffactorau a all ddylanwadu ar fynediad i'r sector rhentu preifat i bobl ddigartref. Mae gan Gymru sector rhentu preifat sy'n tyfu, ac mae'n cwmpasu ar gyfartaledd 11 y cant o Farchnad Dai Cymru. Drwy'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai a Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, fel y'u cyflwynwyd gan Ddeddf Tai 2004, mae'r safonau a'r

mynediad i'r sector rhentu preifat yn sicr o wella. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi annog awdurdodau lleol i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto: mae ein Cylchlythyr 20/02 yn egluro sut y dylid datblygu hyn ymhellach, ac rydym wedi cyflwyno Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag i atgyfnerthu hyn. Mae gweithgor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Sector Rhentu Preifat wedi ymrwymo i nodi a lledaenu arferion da i'r perwyl hwn.

5 *Argymhelliad*

**Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gydag awdurdodau lleol, y sector annibynnol ac asiantaethau'r Llywodraeth i ddatblygu strategaeth glir a chyson i sicrhau arian cynaliadwy ar gyfer prosiectau sy'n gallu dangos arferion da.**

***Derbyniwyd.***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu'r cyllid i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru dros 1200 y cant ers 1998, o £500,000 i £6.44 miliwn yn 2007-2008. Mae hyn yn cynnwys £500,000 yn 2006-2007 ar gyfer gwaith atal yr awdurdodau lleol a £450,000 pellach ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag arferion da a'u lledaenu ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi dros 100 o brosiectau digartrefedd sydd â chyllid parhaus hirdymor. Ar hyn o bryd caiff tua 78 y cant o'r rhaglen grant digartrefedd ei ddosbarthu yn y modd hwn, gan wneud cyfanswm o £5,034,423. Ymysg prosiectau sy'n cael cyllid parhaus mae cynlluniau bond, gwasanaethau cyngor ar dai, llochesau nos a phrosiectau allgymorth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi adolygu ei phroses ariannu grant er mwyn hyrwyddo'r gwaith o fonitro a gwerthuso prosiectau ac i ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni. Byddwn yn parhau i fuddsoddi'r rhan fwyaf o'n rhaglen grant digartrefedd ar brosiectau a all gael cyllid cynaliadwy hirdymor, ar yr amod fod y prosiectau'n parhau i ddangos eu gwerth ac effeithiolrwydd strategol.

6 *Argymhelliad*

**Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu cynllun clir i fonitro ac arfarnu:**

- **a. cynnydd yn ôl pob un o 10 amcan y Strategaeth;**
- **b. cynnydd yn erbyn gweithredu a gyflawnir gan sefydliadau eraill;**
- **c. effaith ac ansawdd y gwasanaethau digartrefedd mae'n eu hariannu'n uniongyrchol;**
- **d. effaith gwasanaethau atal a ddarperir gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau annibynnol eraill; ac**
- **e. pa mor ddigonol yw'r gwasanaethau o safbwynt y defnyddiwr.**

***Derbyniwyd.***

a. Mae gweithredu'r Strategaeth a rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn cael ei fonitro gan y Gweithgor Strategaethau Digartrefedd a chyflwynir Adroddiadau ar gynnydd yn erbyn amcanion y Strategaeth i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Byddwn yn parhau i sicrhau bod adroddiadau am gynnydd yn canolbwyntio ar 10 prif amcan y Strategaeth.

b. Ar hyn o bryd mae tîm polisi digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cwblhau arolwg o'r holl sefydliadau eraill y mae Cynllun Gweithredu'r

Strategaeth yn disgwyl iddynt weithredu'n gydategol. Ymddengys fod yr ymatebion cyntaf i'r holiaduron yn bositif ar y cyfan i'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd, fwy o gyd-weithredu a datblygiad llawer o fentrau arloesol.

c. Mae proses grant digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ymwneud â monitro gwybodaeth am berfformiad ar gyfer prosiectau. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae'r broses o werthuso prosiectau a ariennir â grant wedi cael ei hadolygu i gyflwyno asesiad mwy ansoddol o brosiectau sydd wedi'i ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau. Bydd monitro a gwerthuso prosiectau digartrefedd a ariennir â grant yn ystyried gwerth strategol y prosiect, yn darparu tystiolaeth sicrhau ansawdd ac yn hybu gweithio mewn partneriaeth a diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn fwy effeithiol.

d. Mae'r dangosydd newydd o ran atal digartrefedd wedi cael derbyniad da gan awdurdodau lleol a bydd y dangosydd perfformiad hwn yn gonglfaen i fynd â'r agenda atal yn ei blaen. Mae atal digartrefedd yn ganolog i'r Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi darparu canllawiau helaeth i awdurdodau lleol ar arferion da o ran atal digartrefedd. Mae tîm y polisi digartrefedd, drwy ymweld ag awdurdodau lleol, wedi asesu natur gynhwysfawr y gwasanaethau atal digartrefedd ledled Cymru. Yn ogystal â hyn, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a'r sector gwirfoddol ehangach, yn archwilio sut y gellir gwella'r gwaith o fonitro a chefnogi arferion da a gwaith atal digartrefedd yn ansoddol. Bydd hyn yn cyd-fynd â chyflwyno'r dangosydd perfformiad newydd ar gyfer atal digartrefedd, a ddechreuodd o fis Ebrill 2007.

e. Mae defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd y gwaith o gynllunio gwasanaethau digartrefedd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith cynllunio strategol ac mae'n hybu arferion da yn y maes hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu datblygiad arweinlyfr a CD-Rom gyda Dinas a Sir Abertawe ac mae'n cydweithio â'r Uned Ddata Llywodraeth Leol ar ddatblygu canllawiau a ffurflen safonol o foddhad defnyddwyr. Mae'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyraniad Tai a Digartrefedd eisoes yn disgwyl i awdurdodau lleol roi rôl flaenllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu gwasanaethau, a phwysleisir hyn yn y Cod Canllawiau diwygiedig. Hefyd, mae'r broses newydd o werthuso prosiectau digartrefedd a ariennir â grant yn pwysleisio ei bod yn ofynnol cael tystiolaeth o gysylltiad y defnyddwyr gwasanaeth ac adborth ar wasanaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd a ariennir â grant yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth.